



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Atgyfnerthu teuluoedd, hybu cyfrifoldeb rhieni: dyfodol cynhaliaeth plant

Cyhoeddwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol
dros Waith a Phensiynau ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Ionawr 2011

Cm 7990



Atgyfnerthu teuluoedd, hybu cyfrifoldeb rhieni: dyfodol cynhaliaeth plant

Cyhoeddwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol
dros Waith a Phensiynau ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Ionawr 2011

Cm 7990

© **Hawlfraint y Goron 2011**

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan dermau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk <mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk>

Dylai unrhyw ymholiad ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael ei anfon atom yn:

Child Maintenance Sponsorship and Strategic Policy Division
Department for Work and Pensions
1st Floor
Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA

Ffôn: 020 7449 5723

E-bost: strengtheningfamilies.consultation@dwp.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn www.dwp.gov.uk/policy/child-maintenance/

ISBN: 978-1-84947-498-6

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf ar ran Rheolwr Deunydd Swyddfeydd Ei Mawrhydi

ID: 2403438 01/11

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o ffibr sydd wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Rhagair Gweinidogaethol	4
Crynodeb gweithredol	6

Atgyfnerthu teuluoedd, hybu cyfrifoldeb rhieni: dyfodol cynhaliaeth plant

Rhagair Gweinidogaethol

1. Mae'n iawn i deuluoedd gael eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb am les eu plant. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn amlochrog – emosiynol, corfforol ac ariannol. Ein nod fel llywodraeth yw cynorthwyo teuluoedd fel y gallant gymryd cyfrifoldeb a sicrhau lles eu plant. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn parhau os bydd perthynas rhieni yn methu neu pan fyddant yn byw ar wahân. Ond mae gwahanu yn amser pan fydd teuluoedd yn fwy tebygol o fod angen cefnogaeth ac rydym am sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt trwy'r cyfnod anodd hwn.
2. Creda'r Llywodraeth Glymblaid y dylai canlyniadau llwyddiannus i deuluoedd a phlant fod wrth wraidd ei gweledigaeth strategol ar gyfer y system cynhaliaeth plant. Rydym am iddo hyrwyddo canlyniadau sydd orau ar gyfer teuluoedd a phlant, i ddsbarthu gwasanaeth cynhaliaeth weinyddol fwy effeithiol ar gyfer y rheini sydd ei angen, a darparu gwerth am arian i'r trethdalwr
3. Roedd ein Rhaglen i'r Llywodraeth yn gwneud yn glir ein hymrwymiad i gefnogi ac atgyfnerthu teuluoedd. Yn y teulu mae plant yn datblygu – yn seicolegol, yn gorfforol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol – a dyma'r sail ar gyfer sicrhau bod plant yn cwrdd â'u potensial. Mae plant sy'n tyfu i fyny mewn teuluoedd sefydlog yn cael dechrau gwell mewn bywyd – o ddawn addysgiadol i iechyd meddwl i ragolygon cyflogaeth yn y dyfodol – yn hytrach na phobl yr un oed sydd wedi dioddef o amgylchedd cartref sydd yn anhrefnus neu'n gamweithredol. Ac nid dim ond unigolion sy'n elwa; mae buddion economeg a chymdeithasol i'w gweld pan fydd amgylchedd cefnogol teuluol yn cael ei adlewyrchu mewn oedolion.
4. Mae cefnogi teuluoedd i atal perthnasau rhag torri lawr yn ganolog i'n gweledigaeth ar gyfer teuluoedd cryf. Ble mae'n bosibl atal chwalu teuluoedd, rhaid i ni ymyrryd yn gynnar i helpu rhieni ddod dros y problemau gallant wynebu yn eu perthnasau ac osgoi rhagor o broblemau rhyngweithiol rhag datblygu. Mae'r un egwyddor o ymyrryd yn gynnar a chefnogaeth effeithiol yn berthnasol i deuluoedd sydd yn gwahanu neu sy'n debygol o wahanu: gall effeithiau toriadau teuluol fod yn barhaus ar rieni a phlant.
5. I deuluoedd, mae delio â gwahanu fel arfer yn cynnwys y materion ymarferol o drefnu asedau, ynghyd â'r materion emosiynol perthnasol sy'n codi o ddelio â digwyddiad bywyd arwyddocaol. O ganlyniad, mae teuluoedd angen cefnogaeth sy'n cwrdd â'u hanghenion gwahanu unigol, i'w galluogi i addasu i amgylchiadau newydd.

6. Yn rhy aml, nid yw rhieni yn gwybod at bwy i droi i'w helpu i ddelio â gwahanu ac i ddatrys beth gall ymddangos fel materion anodd eu datrys, fel cytuno ar gymorth ariannol drwy daliadau cynhaliaeth plant. Gallant deimlo nad oes ganddynt yr adnoddau addas i drafod y trefniadau hir dymor sydd orau ar gyfer y plant: y rheini sy'n hybu cyswllt parhaol a'r ymglymiad o'r ddau riant ym mywyd eu plant, gyda'r ddau riant yn cymryd cyfrifoldeb parhaol am eu plant trwy gydweithio fel rhieni.
7. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn amlinellu ail lunio radical o'r system gynhaliaeth plant statudol i gefnogi teuluoedd sy'n profi gwahanu yn well, cydnabod amrywiaeth a chymhlethdod y materion y mae rhieni yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn ganolog i'n dull o ddiwygio yw model integredig o wasanaethau cefnogaeth i berthnasau a theuluoedd, sy'n helpu rhieni i wneud trefniadau hir dymor eu hunain, oherwydd trefniadau cydweithiol, pan yn bosib, yw'r gorau ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.
8. Rydym am alluogi a rhoi'r pŵer i rieni i gael mwy o gyfrifoldeb wrth wneud eu dewisiadau gwybodus ei hunain i sefydlu trefniadau parhaol ar ôl gwahanu. Dylai cysylltiad y Wladwriaeth trwy'r system gynhaliaeth plant statudol ganolbwyntio ar y rhieni hynny sydd ddim yn gallu gwneud eu trefniadau eu hunain. Ac ar gyfer y teuluoedd hynny sydd angen y system statudol rydym yn cynnig model newydd o gynhaliaeth plant i gyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n darparu gwerth am arian i'r trethdalwr a gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyflawni'r pwrpas sylfaenol: i chwarae rôl strategol wrth sicrhau bod y ddau riant yn gallu cymryd cyfrifoldeb am gynnal eu plant yn dilyn gwahanu.
9. Dim ond rhan o'r darlun yw helpu rhieni wneud trefniadau ar gyfer cynhaliaeth ariannol yn dilyn gwahanu. Oherwydd bod teuluoedd yn chwalu yn creu nifer o faterion lle mae angen help ar rieni i'w goresgyn, mae'r Papur Gwyrdd hwn yn adlewyrchu ymateb ar draws y llywodraeth i ddiwygio. Rydym wedi datblygu ein cynlluniau ar y cyd gyda'n cydweithwyr yn yr Adran Addysg a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym hefyd wedi anelu at adlewyrchu cyfeiriad cyffredinol yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu cyfredol a gadeiriwyd gan David Norgrove.
10. Yn yr adegau heriol hyn, rhaid i ni sicrhau ein bod yn buddsoddi adnoddau prin i gefnogaeth rydym yn sicr fydd yn gweithio. Fel y cyfryw, trwy'r Papur Gwyrdd hwn gofynnaf am eich barn a'ch cyfraniadau i helpu cynllunio a throsglwyddo'r gefnogaeth sydd ei angen ar deuluoedd iddynt allu ymdopi â pherthynas yn chwalu a'r effeithiau o wahanu.

Crynodeb gweithredol

Cefnogi teuluoedd a pherthnasau, a chefnogi datblygiad plant

1. Mae tyfu i fyny mewn amgylchedd cefnogol a bywiog yn helpu i blant ddatblygu yn oedolion iach, hapus a llwyddiannus. Mae tystiolaeth yn dangos bod presenoldeb y ddau riant ym mywydau plant yn well i blant mewn llawer ffordd. Rydym felly am hybu hyn lle'n bosib. Rhan o hyn yw cefnogi teuluoedd drwy'r broses o wahanu – gan alluogi iddynt ddelio â'r sialensiau sy'n codi fel y gallant barhau i ddarparu'r amgylchedd gorau gallant ar gyfer eu plant.
2. Ond, rydym yn cydnabod y gall bywyd teuluol fod yn heriol. Gall pryderon bob dydd ynghyd ag anawsterau difrifol roi pwysau ar berthynas y teulu. Ond mae teuluoedd yn hynod o wydn ac yn gallu delio â threialon bywyd, yn enwedig os bydd ganddynt bobl a chefnogaeth y gallant ddibynnu arnynt. Pan fydd gwahanu yn anochel, mae ein hymdriniaeth â'r teuluoedd yr un fath – rydym am gefnogi teuluoedd cryf i gydweithio i ddod i gytundebau sydd o fudd i'w plant.
3. Yn y Papur Gwyrdd hwn, rydym yn gosod allan ein cynigion ar gyfer diwygio ac ail-leoli'r gwasanaethau a ddarperir gan y system gynhaliaeth plant a'u halinio gydag amcanion y Llywodraeth Glymbleidiol ar gyfer cefnogi ag atgyfnerthu teuluoedd. Ond dim ond rhan o'r darlun yw cynhaliaeth plant. Mae angen i ni ystyried yr ystod eang o gefnogaeth sydd ar gael i rieni mewn cyswllt a gwahanu i'w cynorthwyo i wneud y penderfyniadau sydd orau i'r rhieni ac i'r plant.

Ein hegwyddor ar gyfer diwygio


4. Rydym yn credu mai teuluoedd eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i bennu pa drefniadau fyddai'n gweithio orau iddynt. Yn waelodol i'n ymdriniaeth yw'r dybiaeth y dylai'r llywodraeth ddefnyddio mecanweithiau i annog a chefnogi rhieni i:
 - gyflawni eu **cyfrifoldebau fel rhieni** yn nhermau presenoldeb parhaus ym mywydau eu plant a drwy dalu cynhaliaeth plant; a
 - gwneud **trefniadau o fewn y teulu** ynglŷn â'r materion hyn pan yn bosib, sy'n well i'r plant, yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau'r llywodraeth i gamu ymlaen a gweinyddu'r trefniadau hyn ar ran rhieni.
5. Rydym am annog rhieni i ddefnyddio'r ystod o gefnogaeth i'w cynorthwyo i wneud trefniadau yn seiliedig ar y teulu ar gyfer cynhaliaeth plant a fydd yn hybu magu plant ar y cyd a phresenoldeb parhaus y ddau riant ym mywydau'r plant. Felly, mae ein hymdriniaeth arfaethedig o'r diwygiad i gynhaliaeth yn cael ei danategu gan yr egwyddorion canlynol:
 - **Canolbwyntio ar y teulu:** Fe wnawn gefnogi teuluoedd sy'n gwahanu i gydweithio wrth ddelio â nifer o faterion – gan gefnogi perthynas teuluol a cheisio osgoi'r anallu i ddatrys problemau, yn enwedig materion ariannol.

- **Cefnogi teuluoedd i gymryd cyfrifoldeb:** Byddwn yn darparu gwasanaethau sy'n annog a galluogi rhieni i wneud penderfyniadau ystyriol ynglŷn â'r trefniadau cynhaliaeth sydd orau i'w plant. Mae hyn yn cynnwys gweithredu mynediad a chodi tâl am ddefnyddio'r gwasanaethau statudol.
- **System statudol wedi'i ddiwygio:** Caiff cynlluniau'r Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) eu disodli gan gynllun cynhaliaeth plant statudol effeithlon newydd a gaiff ei gyflwyno mewn camau er mwyn osgoi camgymeriadau diwygiadau'r gorffennol ac fe'i cefnogir gan system gyfrifiadurol newydd. Byddwn yn gwneud cymaint o arbedion ag y gallwn yn ystod y newidiadau, fel bod y system mor effeithlon â phosib.
- **Amddiffyn y mwyaf bregus:** gall teuluoedd fod yn fregus iawn cyn ac wedi gwahanu, ac am y rheswm hwn mae'n bwysig bod cefnogaeth ar gael sy'n cwrdd â'u hanghenion wrth ddelio â'r materion. Byddwn yn darparu cefnogaeth arbennig i'r rhai sydd yn dioddef o drais yn y cartref.

Y weledigaeth ar gyfer cefnogi rhieni sy'n gwahanu

6. Mae'r egwyddorion hyn yn trosi i weledigaeth o wasanaethau sy'n darparu'r gefnogaeth y mae rhieni eu hangen i ddelio ag effeithiau gwahanu a chymryd y cyfrifoldeb am gytundebau sy'n seiliedig ar y teulu lle'n bosib. Drwy roi'r teulu yn ganolbwynt i uno gwasanaethau, rydym am gynnig taith symlach i deuluoedd gael mynediad a chael y gefnogaeth sydd arnynt ei angen ar adeg mor anodd, gyda'r nod o wneud trefniadau sydd orau i'r plant yn y hirdymor.

Ffigur A: Dewisiadau: cyfrifoldeb teuluol a diwygio'r system gynhaliaeth plant



Pennod Un: Newid tirwedd – cefnogi rhieni sy'n gwahanu

7. Eisoes mae nifer o enghreifftiau o bobl broffesiynol a sefydliadau yn cynnig y cymorth sydd ei angen ar rieni tra eu bod yn gwahanu. Mae gan sefydliadau gwirfoddol a chymunedol flynyddoedd o brofiad o ddarparu'r gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar deuluoedd sy'n gwahanu. Mae llawer yn canolbwyntio ar faterion penodol, fel cymorth ariannol, cyfryngu, cwnsela perthynas a sgiliau bod yn rhiant. Fodd bynnag, gall fod yn anodd i deuluoedd lywio'r system gymorth gymhleth hwn a chanfod pa gefnogaeth sydd ei angen arnynt, gan gynnwys os byddai trefniant yn seiliedig ar y teulu yn fwy perthnasol.
8. Rydym am gyfuno'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd er mwyn galluogi teuluoedd i ddod at ei gilydd er mwyn datrys eu materion mewn modd cydweithredol pan fo hynny'n bosibl. Mae hefyd yn golygu bod gan y rhai hynny sy'n darparu cefnogaeth fwy o ymwybyddiaeth o'r ystod o gefnogaeth gallai teuluoedd sy'n gwahanu fod ei angen. Mae hyn hefyd yn gymwys i wasanaethau cymorth a fydd yn ymwybodol o rieni sy'n gwahanu a fydd yn gallu cyfeirio teuluoedd at gefnogaeth well.
9. Eisoes mae modelau ar lefel lleol a tramor o sut gellir darparu hyn. Gallai gynnwys cyd-leoli gwasanaethau cefnogaeth o dan un to i ganiatáu i deuluoedd gael mynediad hawdd i'r ystod lawn o gefnogaeth y gallant fod angen. Gall hefyd gynnwys hyfforddi mwy o bobl broffesiynol i adnabod pa gefnogaeth sydd ei angen ar aelodau teulu a ble i'w cyfeirio. Bydd yr arbenigwyr yn penderfynu beth fydd yn gweithio orau yn eu hardal. Bydd hyn yn caniatáu i fwy o deuluoedd gael mynediad ac i ddefnyddio'r wybodaeth a chefnogaeth sydd angen arnynt i ddod i drefniant sy'n seiliedig ar y teulu sy'n addas i'w hamgylchiadau unigol.

Pennod Dau: Diwygio cynhaliaeth plant – cynnig y Llywodraeth i rieni a threthdalwyr

10. Mae ein gweledigaeth o gefnogi a galluogi rhieni i ddod i drefniadau cynhaliaeth plant yn seiliedig ar y teulu yn gorfodi ail-lunio sylfaenol o rôl gwasanaethau statudol cynhaliaeth plant o fewn y system o gefnogaeth a ddarperir i deuluoedd o amgylch y pwynt o wahanu.
11. Hyd yma, mae'r Asiantaeth Cynnal Plant wedi cael ei hystyried fel y dewis diofyn ar gyfer rhieni sy'n chwilio am gefnogaeth i wneud trefniadau cynhaliaeth plant ar ôl gwahanu. Rydym am newid y diwylliant hwn fel y caiff rhieni gael eu cefnogi i ddod i drefniant rhwng ei gilydd cyn i wrthdaro ac aflafaredd gychwyn. Bydd hyn yn galluogi'r system statudol ffocysu ar drefniadau cynhaliaeth pan na fydd cydweithio rhwng rhieni yn bosibl (er enghraifft ble mae rhiant yn gwrthod cymryd cyfrifoldeb neu ble mae materion, fel y risg o drais yn y cartref, yn golygu efallai na fydd rhieni bob tro yn gallu datrys materion yn effeithiol rhwng ei gilydd). I gyflawni hyn byddwn yn:
 - a. Cyflwyno **porth** i'r cynllun cynhaliaeth statudol er mwyn sicrhau yn gyntaf, bod rhieni yn cael eu cefnogi i gymryd cyfrifoldeb a gwneud trefniadau yn seiliedig ar y teulu cyn troi at ddefnyddio'r system statudol. Lle'n addas gellir cyfeirio pobl at wasanaethau cefnogi teuluoedd ehangach i alluogi teuluoedd i ddatrys ystod o faterion. Hefyd bydd llwybr cyflym ar gyfer y rhai sydd fwyaf bregus, fel y rhai sydd wedi dioddef o drais yn y cartref.

- b. Cynnig **pecyn cefnogaeth** i alluogi rhieni i roi trefniadau ariannol eu hunain mewn lle. Bydd hyn yn cynnwys cyfrifiad, yn seiliedig ar wybodaeth gan Gyllid a Thollau EM, ar y swm o gynhaliaeth i'w darparu. Ni fydd y gwasanaeth hwn yn gweithredu'n unigol – bwriedir iddo ategu'r fynedfa a'r gefnogaeth deuluol ehangach.
- c. Gweithredu **ffioedd ar gyfer gwasanaethau cynhaliaeth plant statudol** o dan y cynllun cynhaliaeth plant newydd. Mae'r cynnig hwn yn adeiladu ar ymchwiliadau adroddiad Syr David Henshaw ar ran y llywodraeth blaenorol.¹ Mae'r ffioedd a gynigir yn bwriadu annog teuluoedd i wneud dewisiadau sydd orau i'w plant a gall y penderfyniadau gael eu gwneud ar bwyntiau amrywiol a fydd yn osgoi codi ffi. Seiliwyd hyn ar yr egwyddor o degwch – gyda ffi ostyngol ar gyfer rheini sydd ar fudd-daliadau. Rydym hefyd yn edrych ar y cydbwysedd o ffioedd rhwng y rhiant â gofal a'r rhiant dibreswyl, ynghyd a'r angen i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed – bydd pobl sydd wedi dioddef o drais yn y cartref wedi'i esgusodi o'r ffi gwneud cais. Bydd y mesur hwn ynghyd a'r cynnydd mewn effeithiolrwydd yn lleihau'r baich ariannol ar y trethdalwr, sydd ar hyn o bryd yn talu'r gost lawn o drosglwyddo taliadau cynhaliaeth, gan ddiogelu'r cynllun statudol ar gyfer rheini sydd eu hangen.

Pennod Tri: Symud i'r system cynhaliaeth plant newydd

12. Mae darparu system TG cynhaliaeth plant sy'n effeithiol ag effeithlon yn hanfodol fel bod rhieni sydd ddim yn gallu gwneud trefniadau cydweithiol yn gallu cael mynediad i'r cymorth ariannol parhaol y mae ganddynt yr hawl iddo, fel y gallant gefnogi eu plant.
13. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cynllun newydd i symleiddio cynhaliaeth plant i ddisodli cynlluniau cyfredol yr Asiantaeth Cynhaliaeth Plant. I ddechrau bydd y system newydd hwn ar gael i gleientiaid newydd, dros amser caiff achosion yr Asiantaeth Cynnal Plant eu cau a gall rhieni wneud cais trwy'r system newydd. Cynllunnir y cynllun newydd i drosglwyddo gwelliannau amlwg ag ystyrlon i gleientiaid. Bydd system gyfrifiadurol newydd mewn lle i alluogi adolygiad blynyddol o achosion trwy gysylltu â'r systemau treth Cyllid a Thollau EM a bydd yn darparu gwybodaeth incwm y gallwn ddefnyddio i gyfrifo cynhaliaeth plant. Bydd y newidiadau hyn yn ein galluogi i ddiweddarau achosion yn flynyddol am y tro cyntaf a bydd yn rhoi gwasanaeth o ansawdd llawer gwell i rieni.
14. Bydd y system newydd hefyd yn cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr. Dysgwyd o'r problemau gyda systemau cyfrifiadurol cyfredol yr Asiantaeth Cynnal Plant ac, wrth ddatblygu'r system gynhaliaeth plant newydd, rydym yn mabwysiadu dull i gynllunio systemau sydd a llai o risg a chyfnod profi addas cyn lansio'r cynllun.

Pwrpas y Papur Gwyrdd hwn

15. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn disgrifio ein cynigion ar gyfer ail lunio'r gwasanaethau rydym yn credu sy'n angenrheidiol er mwyn cael canlyniadau gwell i deuluoedd. Mae gennym gyfle i uno'r gwasanaethau sydd eisoes mewn bodolaeth a darparu cymorth sy'n wir holistig i deuluoedd, ac i ail leoli rôl y system gynhaliaeth plant wrth drosglwyddo'r gorau i blant.

¹ Adroddiad Syr David Henshaw i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau; *Adennill cynnal plant: llwybrau i gyfrifoldeb* (Gorffennaf 2006).



information & publishing solutions

Argraffwyd gan TSO (The Stationery Office)
ac ar gael gan:

Ar lein

www.tsoshop.co.uk

Trwy'r post, ffôn, ffacs ac e-bost

TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebu dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol
0870 600 5522
Archebu trwy'r Llinell Gymorth Seneddol
Lo-Call 0845 7 023474
Archebu dros y ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.service@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

Y Siop Lyfrau Seneddol

12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Archebu dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol:
020 7219 3890
Archebu dros y ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Dros y we: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Gall cwsmeriaid hefyd archebu argraffiadau gan:

TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
Archebu dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol:
028 9023 8451
Archebu dros y ffacs: 028 9023 5401

Gallwch weld yr argraffiad hwn ar-lein yn:

www.dwp.gov.uk/policy/child-maintenance/

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r argraffiad hwn,
cysylltwch â

**Child Maintenance Sponsorship and Strategic
Policy Division**

Department for Work and Pensions

1st Floor

Caxton House

Tothill Street

London

SW1H 9NA

Ffôn: 020 7449 5723

E-bost: strengtheningfamilies.consultation@dwp.gsi.gov.uk

Gellir cael copïau o'r ddogfen hon mewn ffurf
eraill os bydd angen.

ISBN: 978-1-84947-498-6

Adran Gwaith a Phensiynau

13 Ionawr 2011

www.dwp.gov.uk